# SUT I DDEWIS CYFLENWR GWYBODAETH A CHYFATHREBIADAU (TGCH)



**Mae nifer enfawr o gynnyrch a gwasanaethau TGCh ar gael erbyn hyn, digon i ddrysu perchnogion busnesau bach. Dylid seilio penderfyniadau prynu systemau TG ar fwy na dim ond y pris – mae'n defnyddiol ystyried beth fydd eich busnes ei angen mewn gwirionedd, nid yn unig ar hyn o bryd ond yr hir dymor hefyd. Yn aml mae'n rhaid i systemau TG gydweithio, felly mae' bwysig cael strategaeth fras o beth yn union fydd raid ei brynu. Gallai prynu systemau cyflawn ymddangos y ffordd symlaf, ond mae posibiliadau eraill a allai fod yn fwy effeithlon.**

O'r blaen, wrth osod system TGCh fe fyddech, yn draddodiadol, wedi dewis cyflenwr yn ôl pris, ardal, enw da ayb, a byddai peiriant cymhleth yn cael ei osod yng nghornel y swyddfa a meddalwedd yn cael ei osod â llaw ar bob cyfrifiadur unigol. Byddai'n rhaid cael rhai newydd yn eu lle ymhen tipyn.

Heddiw, er bod costau/cefnogaeth/ansawdd dal yn dal yn bwysig, mae'r prif ddewisiadau, sy'n seiliedig erbyn hyn ar fand eang cyflym iawn, yn eich galluogi i symud systemau i'r cwmwl a chael y cyflymder llwytho i fyny/llawr lwytho yr ydych yn eu disgybl. Byddwch hefyd yn gallu cael rhaglenni ac yn gallu prosesu rhaglenni newydd, apiau a chyfathrebiadau unedig. Mae dewis y cyflenwr priodol yn golygu fwy, erbyn hyn, o ddewis gwasanaeth a fydd yn hygyrch ac ar raddfa ac sy'n cefnogi'ch gofynion busnes wrth iddo dyfu.

## BETH MAE TGCH YN EI GYNNWYS?

Mae systemau TG yn cynnwys caledwedd, pecynnau meddalwedd, datblygu meddalwedd, telegyfathrebu, Rhwydweithiau Ardaloedd Lleol, hyfforddiant a gwasanaethau cefnogi. Weithiau, dim ond un o'r rhain fyddwch ei angen i weithredu system busnes, ond, fel arfer, bydd angen cyfuniad.

## MODELAU TRWYDDEDU MEDDALWEDD

Un o'r pethau gorau ynghylch symud eich seilwaith TG i'r cwmwl yw y byddwch yn gallu dewis nifer o wahanol Feddalwedd fel Gwasanaeth (SaaS) a thalu wrth ddefnyddio. Mae hynny'n golygu nid yn unig y bydd gennych y meddalwedd a systemau gweithredu mwyaf diweddar, ond hefyd lai o wariant cyfalaf. Mae defnyddio SaaS yn golygu y gallwch dalu'n fisol am eich meddalwedd swyddfa a'i droi'n wariant refeiw a lledaenu'r gost.

## BLAEN GYNLLUNIO

Mae'n hawdd prynu cydrannau TG yn flêr a di-batrwm. Mae hynny'n tueddu i arwain at systemau nad ydyn nhw'n cyfathrebu â'i gilydd, bod gofyn cael llawer o wahanol galedwedd a meddalwedd nad yw, yn aml, yn ateb y goryn. I osgoi hynny, mae'n bwysig cynllunio caffael TG.

## DIFFINIO'CH GOFYNION

- Paratowch restr o'r hyn sydd ei angen mewn gwirionedd – y pethau mae'n rhaid i'r system TG eu gwneud yn effeithlon ar gyfer y busnes.
- Fel perchennog y busnes chi sy'n gwybod beth yw eich gofynion, ond mae'n bwysig hefyd gynnwys gweithwyr neu'r rhai sy'n defnyddio'r system wrth sefydlu set realistig o ofynion.
- Diffiniwch y gofynion 'anweithredol', sef y pethau y mae'n rhaid i'r system allu eu gwneud ond nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i waith y busnes, er enghraifft gweithio â'r System Weithredu neu rwydweithio â'r basdata presennol.
- Disgrifiwch y buddion busnes y dylech eu cael gan y system newydd a diffiniwch sut y bydd y system newydd yn darparu hynny.
- Diffiniwch y math a'r lefel o gefnogaeth y byddwch ei angen gan gyflenwr i wneud defnydd da o'r system newydd. Fel arfer, bydd hynny'n cynnwys trosi data presennol, darparu hyfforddiant a chefnogaeth i ddatrys problemau o ddydd i ddydd ffôn dros y ffôn.
- Ystyriwch y risgiau sy'n gysylltiedig â chyflwyno system newydd a byddwch yn glir beth fyddai'n rhaid ei wneud i osgoi'r risgiau hyn i'ch busnes. Efallai bydd y dadansoddiad yn cyflynwyno gofynion newydd.

## PRYNU

- Fel arfer mae pecynnau meddalwedd y gellir eu prynu oddi ar y silff yn werth ardderchog am arian pan mai dim ond gwaith busnes safonol sydd ei angen, megis prosesu geiriau, rheoli stoc, cyfrifon neu restr gyflog.
- Ond, os nad yw'r system TG, neu'r gwasanaeth sydd ei angen ar gael oddi ar y silff, bydd yn rhaid i chi gael dyfynbrisiau oddi wrth ddarpar gyflenwyr. Bydd yn rhaid i chi baratoi 'Cais am Ddyfnbris' yn seiliedig ar eich rhestr o ofynion.
- Weithiau mae o fudd prydlesu, yn hytrach na phrynu, eitemau drud o galedwedd. Mae hynny'n gallu helpu gyda llif arian wrth i'r busnes ehangu.
- Mae gwasanaethau yn y cwmwl yn gallu cynnig amrywiaeth eang o atebion busnes sydd ond yn gofyn am gysylltiad Rhyngrwyd cyflym; does dim angen gweinyddion na seilwaith arall. Fel arfer mae'r costau sy'n codi'n rheolaidd yn rhesymol ac mae'r cyflenwr yn ysgwyddo'r holl swyddogaethau rheoli TG.
- Mae lwfansau treth gorfforaeth yn newid dros amser. Cysylltwch â'ch cyfrifydd i benderfynu a fyddai o fantais prynu a gosod y costau'n erbyn treth yn gyflym.
- Mae atebion yn y cwmwl yn trosglwyddo'r costau system newydd mewn gwirionedd o fod yn wariant calaf i fod yn wariant refeniw rheolaidd. Gallai hynny fod o gryn fantais i fusnesau sy'n tyfu.

## AWGRYMIADAU ARDDERCHOG

***Dysgu o brofiad – cadw cofnodion***

Mae’r costau ynghlwm â chaffael systemau TG yn gallu bod yn ddrud a dylid eu cofnodi er mwyn i'ch cyfrifydd allu paratoi'r llyfrau'n iawn a sicrhau fod y busnes yn derbyn y lwfansau treth priodol.

***Gweithredu***

Efallai y bydd yna rai adegau o’r flwyddyn, fwy na’i gilydd, pan mae’n well gweithredu systemau newydd. Er enghraifft, gallai diwedd y flwyddyn ariannol fod yn adeg drwg i gyflwyno system gyfrifon newydd.

***Mudo***

Mae’n eithaf prin i fusnes bychan weithredu system TG newydd nad yw’n disodli system bresennol trin â llaw, neu hen system TG. Mae hynny’n golygu bod yna, fel arfer, rywfaint o ddata y mae’n rhaid ei ‘fudo’ o’r hen system i sicrhau ei fod ar gael ar gyfer yr un newydd. Mae mudo data’n cymryd amser. Diffiniwch pwy fydd yn gwneud hyn a sicrhewch ei fod yn cael ei gostio’n iawn.

***Hyfforddiant***

Yn aml, mae hyfforddiant yn rhan bwysig iawn o weithredu. Bydd rhai cyflenwyr yn cynnwys hyn yng nghostau’r system; ond bydd yn rhaid i chi ei brynu ar wahân gan rai eraill. Sicrhewch eich bod yn cyfrif am gostau hyfforddi a’r amser gweithiwr y bydd hynny’n ei gymryd.

***Cytundebau Lefel Gwasanaeth***

Os bydd y caffael yn cynnwys llawer o wasanaeth, megis cefnogaeth, yna gallai fod yn ddefnyddiol ystyried a thrafod ‘Cytundeb Lefel Gwasanaeth’ gyda’ch dewis gyflenwr.

***Rheoli Newid***

Os byddwch yn symud i’r cwmwl bydd gofyn i’ch tîm TG ddysgu sgiliau newydd ac anghofio hen rai, a bydd yn rhaid i’ch staff eraill ddysgu ffordd newydd o weithio hefyd. Ystyriwch pa gyrsiau neu sgiliau y byddan nhw eu hangen cyn gweithredu.

# Cyflymu Busnesau Cymru

## Y CAMAU NESAF

1. **Cofrestrwch i fod yn bresennol mewn Gweithdy Datblygu Busnes wedi'i ariannu'n llawn.**
   **http://business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau**

2. **Gwnewch apwyntiad i weld Ymgynghorydd Buses a fydd yn eich cynorthwyo i greu cynllun gweithredu personol i dyfu'ch busnes.**
   **http://business.wales.gov.uk/cy/cysylltwch-a-ni**

## Am fwy o gyngor am Gyflymu Busnesau:

Gweld sut mae busnesau eraill yng Nghymru wedi ymelwa o Fand Eang Cyflym Iawn:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/straeon-llwyddiant-cyflym**

---

Canfod faint allai'ch busnes chi arbed gyda'r cyfrifiannell arbedion:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/cyfrifwr-arbedion**

---

Mae Canllawiau Busnes eraill a allai fod o ddiddordeb i chi yn cynnwys:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/canllawiau-busnes-cyflym-iawn**

---

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf yn fisol ar ddatblygiad busnes, newyddion technoleg a digwyddiadau tanysgrifiwch i Daflen Newyddion Busnes Cymru:
**https://public.govdelivery.com/accounts/UKWALES_CY/subscriber/new**

---

Am ragor o wybodaeth ffoniwch 03000 6 03000 neu ymwelwch â:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy**

Busnes Cymru Business Wales

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru Welsh Government
**Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop**
**European Regional Development Fund**

Llywodraeth Cymru Welsh Government